



## **TAG Uwch**

585/51

### **CYMRAEG – IAITH GYNTAF CY5 Y CHWEDLAU, YR HENGERDD A'R CYWYDDAU**

*(Arholiad Ysgrifenedig)*

A.M. DYDD MAWRTH, 10 Mehefin 2008

2½ awr

#### **DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.

#### **CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **tri** chwestiwn.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt.

Dylid defnyddio dyfyniadau a themau beirniadaeth lenyddol.

**Mae angen i chi ysgrifennu Cymraeg da a chywir a chyflwyno'ch atebion yn drefnus.**

Dylech dreulio tuag **AWR** ar gwestiwn 1 a thua **45 munud yr un** ar gwestiynau 2 a 3.

#### **GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Y mae pob cwestiwn yn gyfwerth o ran marciau.

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod yn yr arholiad.

## 1. Rhyddiaith yr Oesoedd Canol

Darllenwch y darn canlynol ac yna atebwch y cwestiynau.

- (a) Troschwch i Gymraeg llenyddol diweddar **linellau 1-13** ‘Dywedut o Arthur...A mynet a orugant.’ [20]
- (b) Manylwch ar y themâu a geir yn y darn **cyfan** isod. [10]
- (c) Dadansoddwch arddull y darn **cyfan** isod gan gyfeirio at enghreifftiau penodol. [20]

Dywedut o Arthur, ‘A oes dim weithon o’r anoetheu heb gaffel?’

Y dywawt vn o’r gwyr, ‘Oes, gwaet y Widon Ordu, merch y Widon Orwen o Penn Nant Gouut yg gwrthtir Uffern.’

Kychwyn a oruc Arthur parth a’r Gogledd, a dyuot hyt lle yd oed gogof y wrach. A chynghori o Wynn uab Nud a Gwythyr uab Greidawl gellwng Kacamwri a Hygwyd y urawt y ymlad a’r wrach. Ac ual y deuthant y mywn y’r ogof y hachub a oruc y wrach, ac ymauel [a oruc] yn Hygwyd herwyd gwallt y benn, a’e daraw y’r llawr deni. Ac ymauel o Gacamwri yndi hitheu herwyd gwallt y phenn, a’e thynnu y ar Hygwyd y’r llawr, ac ymchoelut a oruc hitheu ar Kacamwri, ac eu dygaboli yll deu ac eu diaruu, a’e gyrru allan dan eu hub ac eu hob.

A llidyaw a oruc Arthur o welet y deu was hayachen wedy eu llad, a cheissaw achub yr ogof. Ac yna y dywedassant Gwynn a Gwythyr wrthaw, ‘Nyt dec ac nyt digrif genhym dy welet yn ymgribyaw a gwrach. Gellwng Hir Amren a Hir Eidil y’r ogof.’

A mynet a orugant.

Ac or bu drwc trafterth y deu gynt, gwaeth uu drafterth y deu hynny, hyt nas gwypei Duw y vn ohonunt ell pedwar allu mynet o’r lle, namyn mal y dodet ell pedwar ar Lamrei kasec Arthur. Ac yna achub a oruc Arthur drws yr ogof, ac y ar y drws a uyrrei y wrach a Charnwennan y gyllell, a’e tharaw am y hanner yny uu yn deu gelwrn hi. A chymryt a oruc Kaw o Brydein gwaet y Widon a’e gadw ganthaw.

## 2. Yr Hengerdd

Darllenwch y dyfyniad a ganlyn ac yna atebwch y cwestiynau.

- (a) Nodwch enw'r bardd os yw'n hysbys. [2]
- (b) Rhowch gefndir y gerdd a'r bardd. [20]
- (c) Dadansoddwch arddull y bardd yn y gerdd hon. [20]
- (ch) Esboniwch yn gryno unrhyw **ddau** o'r tri ymadrodd canlynol. Nodir hwy mewn llythrennau *italig* yn y dyfyniad.
- (i) Greddf gŵr, oed gwas,
- (ii) Eddi aur a phân.
- (iii) Cynt ei waed i lawr  
Nogyd i neithiawr, [8]

*Greddf gŵr, oed gwas,*  
Gwryd am ddias;  
Meirch mwth, myngfras  
O dan forddwyd mygyrwas.  
Ysgwyd ysgafn, llydan  
Ar bedrain meinfuan;  
Cleddyfawr glas, glân,  
*Eddi aur a phân.*  
Ni bydd ef a fydd  
Cas rhof a thi:  
Gwell gwneif â thi  
Ar wawd dy foli.  
*Cynt ei waed i lawr*  
*Nogyd i neithiawr,*  
Cynt i fwyd i frain  
Nog i argyfrain.  
Cu cyfaill, Owain,  
Cwl ei fod o dan frain.  
Marth im pa fro  
Lladd un mab Marro.

### 3. Y Cywyddau

(a) Dadansoddwch y gynghanedd yn yr wyth llinell a ganlyn. [8 ? 1]

1. Bwa o flaen y ddraenen,
2. Cleddau digon brau o bren.
3. Och nad Siôn, fab gwirion gwâr,
4. Sy'n ail oes i Sain Lasar!
5. O Fair, gwae fi o'i orwedd!
6. A gwae fy ais gau ei fedd!
7. Fy mab, fy muarth baban,
8. Fy mron, fy nghalon, fy nghân.

(b) Darllenwch y dyfyniad a ganlyn. Nodwch enw'r bardd. [2]

(c) Gosodwch y dyfyniad yn ei gyd-destun. [20]

(ch) Dadansoddwch arddull y bardd yn y dyfyniad. [20]

Gwasgod praff, gwisgiad priffyrdd,  
 Gwisgodd bob lle â'i we wyrdd.  
 Pan ddêl ar ôl rhyfel rhew,  
 Pill doldir, y pall deildew –  
 Gleision fydd, mau grefydd grill,  
 Llwybrau Mai yn lle Ebrill –  
 Y daw ar uchaf blaen dêr  
 Caniadau cywion adar;  
 A chog ar fan pob rhandir,  
 A chethlydd, a hoywddydd hir;  
 A niwl gwyn yn ôl y gwynt  
 Yn diffryd canol dyffrynt;  
 Ac wybren loyw hoyw brynhawn  
 Fydd a glwyswydd a glaswawn,  
 Ac adar aml ar goedydd,  
 Ac irddail ar wiail wÿdd.  
 A chof fydd Forfudd f'eurferch,  
 A chyffro saith nawtro serch.